# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION CYFARFOD 2il HYDREF 2018

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Troedyraur ar nos Fawrth yr 2il o Hydref yn Neuadd Coedybryn.

**Yn bresennol** Cyng Julie Davies, Cyng Mark Davies, Cyng Teify Evans, Cyng Llŷr Evans, Cyng Maldwyn Lewis, Cyng Evan John Jones, Cyng Owenna Davies, Cyng Emyr Jones, Cyng Eirian James

**Ymddiheuriadau** Cyng Roger Davies

**Clerc** Eleanor Colbourne

Cyn dechrau'r cyfarfod, llongyfarchwyd y Cyng Evan John Jones ar enedigaeth wyres fach.

| Eitem agenda | Gweithredu | Gan pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| **1. Derbyn ymddiheuriadau** | Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyng Roger Davies | | |
| **2. Cadarnhau cofnodion** | Cynigiwyd gan y Cyng Julie Davies ac eiliwyd gan y Cyng Mark Davies fod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir. | | |
| **3. Datgan diddordeb** | Datgelodd y Cyng Maldwyn Lewis ddiddordeb mewn un eitem ar yr agenda sef eitem rhif 8 – Cynllunio A180682.<br>Datgelodd y Cyng Emyr Jones a'r Cyng Owenna Davies ddiddordeb mewn un eitem ar yr agenda sef eitem rhif 8 – Cynllunio A180867.<br>Fe wnaeth y tri ohonynt lofnodi'r ffurflen pwrpasol. | | |
| **4. Gwybodaeth yn codi o'r cofnodion** | Roedd dau diffibriliwr wedi cyrraedd – maent gyda'r Cyng Maldwyn Lewis. Nid oedd y bocsys wedi cyrraedd ond fyddant wedi cyrraedd fydd y Cyng Maldwyn Lewis yn ei rhoi i fyny yn ardal Brongest (y bocs i'w leoli ger hysbysfwrdd y cyngor cymuned) a Maesllyn (ar y wall lle mae'r hysbysfwrdd – hwn i'w gadarnhau gan perchennog yr adeilad) | | |
| **5. Materion y Cynghorydd Sir** | • Brongest – tynnwyd sylw'r cynghorwyr unwaith eto fod y golau stryd yn dal heb cael ei rhoi yn ôl ar ôl i BT tynnu ei bant. Nododd y Cyng Sir ei fod yn ei ddilyn i fyny.<br>• Llyfryn Cered – Llyfryn Cymraeg 'Hybu Busnes a Cymraeg mewn Busnes'. Angen i'r clerc i gysylltu gyda'r Sir i ofyn am 12 copi o'r ddogfen (01545 572350). Hefyd y Cyng Sir i anfon y linc ymlaen i'r clerc i'w rhoi ar gwefan y cyngor cymuned.<br>• Ffordd o Penrhiwpal i Rhydlewis yn cau am ddiwrnod neu ddau tra fod gwaith yn cael ei wneud .<br>• Llwybr Troed 70/21 – roedd y Cyngorydd Sir wedi derbyn cwyno for y llwybr yma wedi cael ei blocio gan y bobl sydd yn byw gerllaw. Tynnodd y | Cyng Maldwyn Lewis<br><br>Clerc | Tachwedd<br><br>Tachwedd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cynghorydd Sir sylw'r Cyngor Sir at y mater yma.<br>• 'Lucy's Law' – pobl sy'n bridio cŵn ac yn gwerthu cŵn i siopau anifeiliaid anwes.<br>• Y Cynghorydd Sir wedi derbyn ebost gyda linc o lwybrau cerdded ardal Rhydlewis. Y Cynghorydd Sir i anfon y linc i'r clerc i'w roi ar gwefan y cygor cymuned<br>• Ymgynghoriad Hywel Dda – parthed ysbyty newydd. Nodwyd fod ysbyty Bronglais yn weddol sâff! Gwasanaethau ar gael yn yr ysbyty<br>• Ymgynghoriad cau ysgolion Beulah a Trewen ar agor<br>• Safle gwastraff Rhydeinon – ar agor 3 diwrnod yr wythnos<br>• 'Rights of Way Improvement Plan' – 01-11-18<br>• Nodwyd fod sbwriel ar y ffordd o Ffostrasol tuag at Plwmp. Y clerc i anfon llythyr o anfodlonrwydd ynglŷn â'r mater yma. Y Cynghorydd Sir i anfon cyfeiriad y person sydd â chyfrifoldeb am faterion o'r math yma i'r clerc.<br>• Dathliadau yn Llyfrgell y Dref Aberystwyth ar T Llew Jones fel rhan o ŵyl Llyfrgell ar y 10-10-18 am 7.00 y.h. | Cyng Maldwyn Lewis/ Clerc | Tachwedd |
| **6. Gohebiaeth** | • Ymgynghoriad Adolygu'r Polisi Hapchwarae Medi 2018 – y clerc i anfon y sylwadau canlynol '*gofid am gamblo yn ddirgel ar y wê a tu ôl i ddrysau caeedig'*<br><br>• Hysbyseb cau ffordd dros dro – gwybodaeth yn unig<br><br>• Safoni enwau lleoedd – Trafodwyd y daflen a dderbyniwyd ac fe nodwyd sylwadau. Y clerc i'w anfon<br><br>• Post Brenhinol – tynnwyd sylw pawb i'r ohebiaeth yma ynglŷn â sgamiau. Y clerc i rhoi'r wybodaeth yn y bocsys | Clerc<br><br><br><br><br>Clerc<br><br><br><br>Clerc | Ar unwaith<br><br><br><br><br>Ar unwaith<br><br><br><br>Ar unwiath |
| **7. Ariannol** | Talwyd y sieciau canlynol<br>• HMRC - £87.60<br>• Tâl y Clerc - £350.02 | | |
| **8. Cynllunio** | A180862 – Land adjacent to Bryncerdin, Capel Cynon – Cytunwyd yn unfrydol i gefnogi'r cais yn dilyn y sylwad canlynol '*The applicant therefore took on board the concerns and advice of the community council and re-submitted for an TAN 6 dwelling on a site closer to her agricultural building, which is not even visible from the main road, or practically anywhere or anyone.*<br>Yn ystod trafodaeth y cais yma, mi adawodd y Cyng Maldwyn Lewis yr ystafell.<br><br>A180867 – Llwydcoed, Coedybryn – pawb yn gytûn. Fyddai'r cais yma, petaen cael ei dderbyn, yn gwella golwg a safon y tŷ a hefyd y pentref ac yn rhoi'r cyfle i gadw pobl lleol yn y pentref. Hefyd, fod yr adeilad yn aros yn y teulu.<br>Yn ystod trafodaeth y cais yma, mi adawodd y Cyng Emyr Jones a'r Cyng Owenna Davies yr ystafell) | Clerc<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Clerc | Ar unwaith<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Ar unwaith |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **9. Adborth yr Is-Bwyllgor** | Cyfansoddiad – penderfynwyd gadael y drafodaeth yma tan y cyfarfod nesaf.<br><br>Asesiad Risg – penderfynwyd gadael y drafodaeth yma tan y cyfarfod nesaf. | | |
| **10. Trosolwg Ariannol** | Gadael tan y cyfarfod nesaf. | | |
| **11. Polisi Iaith** | Gadael tan y cyfarfod nesaf. | | |
| **12. Anghenion Ardal** | Gadael tan y cyfarfod nesaf. | | |
| **13. Eitemau i'w trafod yn y cyfarfod nesaf** | Cynghorydd Newydd; Cynllunio; Cyfansoddiad; Asesiad Risg; Trosolwg Ariannol | Clerc | 18-10-18 |
| **14. Dyddiad, lleoliad ac amser y cyfarfod nesaf** | 18fed o Hydref yn Neuadd Coedybryn am 7.30 y.h. Os oes rhai yn gallu dod erbyn tua 6.30 y.h. i edrych trwy'r cwpwrdd fyddai hynny yn dda o beth | | |

Llofnod (Cadeirydd) ________________________________

Llofnod (Is-Gadeirydd) ________________________________